

## MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 2)

### Y Bil Cymwysterau Proffesiynol

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol atodol hwn o dan Reol Sefydlog 29.2. Mae Rheol Sefydlog 29 yn rhagnodi bod yn rhaid gosod memorandwm cydsyniad deddfwriaethol, ac y gellir cyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol, gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Cymwysterau Proffesiynol ("y Bill") i Senedd y DU (yn Nhŷ'r Arglwyddi) ar 12 Mai 2021. Ar 2 Tachwedd 2021, cyflwynodd Llywodraeth y DU dri gwelliant i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi. Mae'r gwelliannau hyn yn gwneud darpariaethau sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Cytunwyd ar y gwelliannau hyn yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd 2021.
3. Dechreuwyd ystyried y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 18 Tachwedd 2021. Mae'r Bil, fel y'i diwygiwyd yn ystod Cyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi, i'w weld yn: <https://bills.parliament.uk/bills/2865>.

### Amcan(ion) Polisi

4. Nodir amcanion polisi datganedig y Bil Llywodraeth y DU yn y Datganiad Polisi y gellir ei weld yn: <https://www.gov.uk/government/publications/recognition-of-professional-qualifications-and-regulation-of-professions-policy-statement>
5. I grynhoi, mae Llywodraeth y DU yn cynnig fframwaith newydd ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a rheoleiddio proffesiynau. Bwriedir i'r Bil ddirymu a disodli'r system bresennol ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol sy'n deillio o aelodaeth y DU o'r UE. Mae'r Bil yn creu fframwaith i alluogi cydnabod cymwysterau proffesiynol gan broffesiynau tramor yn y DU neu ran o'r DU.

### Crynodeb o'r Bil

6. Noddir y Bil gan yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS).
7. Mae'r Bil fel y'i cyflwynwyd yn cynnwys darpariaethau sy'n:
  - a. Dod â'r system dros dro ar gyfer cymwysterau proffesiynol sy'n deillio o aelodaeth y DU o'r UE i ben (Cymalau 5 a 6)
  - b. Creu fframwaith ar gyfer cydnabod cymwysterau proffesiynol a phrofiad o wledydd tramor gan broffesiynau yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, er mwyn diwallu anghenion a bodloni gofynion y gwasanaethau a ddarperir gan y proffesiynau hynny.(Cymalau 1 a 2).

- c. Galluogi'r Llywodraeth i weithredu cytundebau rhyngwladol neu rannau o gytundebau rhyngwladol y mae'r DU yn eu llunio â phartneriaid i'r graddau y maent yn ymwneud â chydabod cymwysterau proffesiynol. (Cymal 3)
- d. Galluogi'r Llywodraeth i roi set gyson o bwerau i reoleiddwyr er mwyn iddynt allu llunio cytundebau â rheoleiddwyr tramor i gydnabod cymwysterau proffesiynol. (Cymal 4)
- e. Cynnal 'Canolfan Gymorth' ddynodedig y bydd yn rhaid i reoleiddwyr gydweithredu â hi, er mwyn rhoi cyngor ac arweiniad i'r cyhoedd.(Cymal 7)
- f. Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr tramor lle mae gan unigolyn yr hawl, neu lle mae wedi bod â'r hawl, i ymarfer y proffesiwn hwnnw yn y DU, neu mewn rhan o'r DU, a'i fod yn ceisio'r hawl i ymarfer dramor. (Cymal 10)
- g. Ei gwneud yn ofynnol i broffesiynau ym mhob rhan o'r DU gyhoeddi gwybodaeth am ofynion mynediad ac ymarfer eu proffesiwn. (Cymal 8)
- h. Ei gwneud yn ofynnol i reoleiddwyr yn y DU, os gofynnir iddynt wneud hynny, roi gwybodaeth benodol i reoleiddwyr cyfatebol mewn rhannau eraill o'r DU. (Cymal 9)
- i. Diwygio Deddf Penseiri 1997 er mwyn caniatáu system gydnabod newydd ar gyfer penseiri, ochr yn ochr ag addasiadau i drefniadau gweinyddu'r Bwrdd Cofrestru Penseiri er mwyn helpu i wella effeithlonrwydd.(Cymal 11)

### **Yr wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf**

- 8. Gosodais Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar 17 Mehefin 2021, yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd yn y Senedd y DU. Roedd y Memorandwm yn cadarnhau nad yw Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu'r egwyddor o gydnabod cymwysterau proffesiynol a enillwyd a phrofiad a gafwyd dramor, ond mae o'r farn bod y pwerau cydredol a geir yn y Bil yn tanseilio pwerau hirsefydlog y Senedd a Gweinidogion Cymru i reoleiddio mewn perthynas â materion sydd o fewn cymhwysedd datganoledig. Roedd y Memorandwm yn nodi manylion pryderon sylweddol Llywodraeth Cymru gyda'r Bil fel y'i cyflwynwyd a daeth i'r casgliad na fyddai Llywodraeth Cymru mewn sefyllfa i argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydysyniad oni bai bod y Bil wedi'i ddiwygio'n sylweddol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny.
- 9. Rwy'n dal i bryderu bod pwerau i wneud rheoliadau cydredol yn parhau i fod yn y Bil, am y rhesymau a nodir ym mharagraffau 32 i 36 o'r Memorandwm cychwynnol.
- 10. Fodd bynnag, mae fy mhryderon blaenorol ynghylch cynnwys yr hyn sydd bellach yn gymal 16(5) y Bil (cymal 14(5) gynt) wedi cael sylw gan Lywodraeth y DU erbyn hyn. Mae Llywodraeth y DU wedi ei gwneud yn glir mai effaith gymal 16(5) yw ymestyn cymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru mor bell â chymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, gan gynnwys y gallu i wneud rheoliadau sy'n addasu swyddogaethau awdurdodau a gedwir yn ôl gyda chydysyniad Llywodraeth y DU, ond dim pellach. Rydym yn derbyn y safbwynt hwn, a hefyd yn derbyn bod cymal 16(2) a chymal 16(5) gyda'i gilydd yn cael yr effaith o alinio cymhwysedd deddfwriaethol a gweithredol fel hyn.

## **Sut mae'r memorandwm atodol hwn yn wahanol i'r memorandwm cyntaf.**

11. Mae Llywodraeth y DU wedi gwneud gwelliannau i Gymal 1 y Bil fel y'i cyflwynwyd ac wedi mewnosod cymalau 14 a 15 ychwanegol, fel y cytunwyd yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi ar 9 Tachwedd. Mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol hwn yn nodi fy safbwynt ar y gwelliannau hyn.

## **Gwelliannau ers cyhoeddi'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol cyntaf, y ceisir cydsyniad ar eu cyfer yn awr**

### 12. Is-gymal 1(4):

*(4) For the purposes of subsections (1) to (3)—*

*(a) a condition may be specified under subsection (1) whether or not it is connected to the specified UK qualification or specified UK experience concerned, and*

*(b) a determination mentioned in subsection (2)(b) or (3)(b)(i) may be made—*

*(i) on the basis only of the overseas qualifications or overseas experience concerned, or*

*(ii) on such other basis as the specified regulator considers appropriate (such as on the basis of the overseas qualifications or overseas experience concerned together with the results of any test or other assessment given by any person).*

### 13. Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae Cymal 1 yn rhoi pŵer i'r "awdurdod cenedlaethol priodol" ddarparu drwy reoliadau pa gymwysterau proffesiynol neu brofiad arall a geir y tu allan i'r DU y gellir eu cydnabod o fewn y DU. Ni chaiff rheoliadau ond gwneud darpariaeth ar gyfer unigolion sy'n bodloni'r meini prawf a bennir yn y cymal hwn, sef eu bod wedi derbyn cymwysterau neu brofiad tramor (is-gymalau (2)(a) a (3)(a)); a bod rheoleiddiwr wedi penderfynu bod eu cymwysterau neu eu profiad yr un fath i bob pwrpas â'r hyn sy'n ofynnol gan y rheoleiddiwr neu, fel arall, eu bod wedi cymryd unrhyw brofiad neu gymwysterau eraill yn ôl yr angen (is-gymalau (2)(b) a (3)(b)(i)).

Mae'r gwelliant i'r cymal hwn yn gwneud darpariaeth y gallai Senedd Cymru ddeddfu drosto mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac felly mae'r cymal hwn yn parhau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru. Mae'r gwelliant yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch yr amodau ychwanegol y caniateir eu pennu mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (1) o'r cymal ac yn gwneud darpariaeth ynghylch ar ba sail y caniateir gwneud penderfyniad a grybwyllir yn is-adran (2)(b) neu (3)(b)(i) o'r cymal.

### 14. Argymhelliad

Rwy'n parhau i wrthwynebu cymal 1 o'r Bil oherwydd, er gwaethaf fy ngwrthwynebiad parhaus, mae Llywodraeth y DU wedi gwrthod dileu'r pwerau

cydredol a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor yn y cymal hwn i reoleiddio mewn perthynas â Chymru mewn meysydd sydd wedi'u datganoli. Mewn ymdrech i fod yn adeiladol, mae swyddogion wedi dweud wrth Lywodraeth y DU ar sawl achlysur y gallwn fod yn barod i argymhell cydsyniad ar gyfer y Bil hwn, gan gynnwys cymal 1, os gwneir gwelliant i'w gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Arglwydd Ganghellor gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud unrhyw ddeddfwriaeth mewn meysydd sydd wedi'u datganoli i Gymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth y DU wedi bod yn barod i wneud unrhyw welliant o'r fath.

Felly, rwy'n argymhell y dylid atal cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymal 1, fel y'i diwygiwyd.

#### 15. Cymal 14 - Diogelu ymreolaeth rheoleiddwyr

*(1) The appropriate national authority may make regulations under section 1, 3 or 4 only if satisfied that the conditions in subsections (2) and (3) are met.*

*(2) The condition in this subsection is that the regulations do not remove the ability of any regulator of a regulated profession to prevent individuals who are unfit to practise the profession from doing so.*

*(3) The condition in this subsection is that the regulations will not have a material adverse effect on any regulated profession in terms of the knowledge, skills or experience of the individuals practising it.*

*(4) The reference in subsection (2) to individuals who are unfit to practise the profession is a reference to individuals who are unfit to practise the profession by reason of their character, a lack of knowledge, skills or experience or otherwise.*

*(5) A reference in this section to practising a profession includes a reference to undertaking activities that comprise the practise of the profession or using a title associated with the practise of the profession.*

#### 16. Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth y gallai'r Senedd ddeddfu ar ei chyfer mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac felly mae'r cymal hwn yn parhau o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Mae'r cymal hwn yn atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau o dan adran 1, 3 neu 4 o'r Bil oni bai ei fod wedi ei fodloni bod yr amodau yn is-adrannau (2) a (3) o gymal 14 newydd wedi eu cyflawni. Ychwanegwyd y cymal hwn i roi sicrwydd i reoleiddwyr mai dim ond pan na fyddai gwneud hynny'n cael effaith andwyol ar ymreolaeth reoleiddiol y caiff yr awdurdod cenedlaethol priodol ddeddfu.

Er y gall y gwelliant gynnig rhywfaint o gysur i reoleiddwyr, yr anhawster o hyd yw mai mater i'r awdurdod cenedlaethol priodol yn unig yw penderfynu a yw'n fodlon bod y naill neu'r llall o'r amodau hyn yn cael eu bodloni ai peidio, ac nad mater i bob rheoleiddiwr unigol yw penderfynu.

Mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Mae hyn yn golygu, pan fo'r Ysgrifennydd Gwladol neu'r Arglwydd Ganghellor yn gweithredu fel yr awdurdod, fod ganddynt y pŵer i benderfynu bod yr amodau ychwanegol yn cael eu bodloni, hyd yn oed wrth reoleiddio mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

#### 17. Argymhelliad

Gan fy mod yn parhau i wrthwynebu'r pwerau cydredol yn y Bil, rwy'n argymhell y dylid atal cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y cymal 14 hwn, sy'n ymwneud â'r pwerau gwneud rheoliadau cydredol o dan gymalau 1, 3 a 4 o'r Bil.

#### 18. Cymal 15 - Ymgynghori â rheoleiddwyr

*Before making regulations under section 1, 3 or 4, the appropriate national authority must consult a regulator of a regulated profession if the authority considers that—*

*(a) the regulator is likely to be affected by the regulations, or*

*(b) it is otherwise appropriate to consult the regulator.*

#### 19. Safbwynt Llywodraeth Cymru

Mae'r cymal newydd hwn yn gwneud darpariaeth y gallai'r Senedd ddeddfu ar ei chyfer mewn perthynas â meysydd datganoledig, ac felly mae'r cymal hwn o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Mae'r cymal hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod cenedlaethol priodol ymgynghori â rheoleiddiwr proffesiwn rheoleiddiedig cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 1, 3 neu 4 os yw'r awdurdod o'r farn bod y rheoliadau'n debygol o effeithio ar y rheoleiddiwr neu ei bod fel arall yn briodol ymgynghori â'r rheoleiddiwr. Er y gall rhai rheolyddwyr groesawu'r cyfaddawd hwn, nid yw'n mynd mor bell ag atal yr awdurdod cenedlaethol priodol rhag gwneud rheoliadau y mae'r rheolyddwyr wedi'u gwrthwynebu yn ystod ymgynghoriad o'r fath.

Mae'r gwelliant hwn yr un mor berthnasol i bob un o'r awdurdodau cenedlaethol priodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru lle bo hynny'n berthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r gwelliant yn atal yr Ysgrifennydd Gwladol na'r Arglwydd Ganghellor, wrth weithredu fel yr awdurdod, rhag gwneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig sy'n groes i nodau polisi rheoleiddwyr Cymru neu Weinidogion Cymru.

## 20. Argymhelliad

Unwaith eto, gan fy mod yn parhau i wrthwynebu'r pwerau cydredol yn y Bil, rwy'n argymhell y dylid atal cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer y cymal 15 hwn, sy'n ymwneud ag arfer y pwerau gwneud rheoliadau cydredol o dan gymalau 1, 3 a 4 o'r Bil.

## **Goblygiadau ariannol**

21. Y sefyllfa o hyd yw y gallai cymalau 1, 14 a 15 fod â goblygiadau ariannol i reoleiddwyr os a phan y caiff y darpariaethau yn y Bil eu deddfu gan reoliadau.
22. Mae goblygiadau ariannol yn deillio'n anuniongyrchol o'r Bil hwn. Os yw'r darpariaethau yn y Bil yn golygu bod yn rhaid i reoleiddwyr ymrwymo gwariant ychwanegol i gydymffurfio, Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau ar gyfer y gwariant hwnnw yn y pen draw drwy'r trefniadau ariannu sydd ar waith gyda'r rheoleiddwyr datganoledig. Nid yw'r union gostau yn hysbys ar hyn o bryd.
23. Mae Llywodraeth y DU wedi sefydlu [cynllun Grant Trefniadau Cydnabod](#) peilot ar gyfer cyrff rheoleiddio a phroffesiynol y DU ar gyfer proffesiynau o fewn y sector gwasanaethau proffesiynol a busnes i gefnogi costau cael cymorth technegol wrth negodi neu baratoi ar gyfer trefniant cydnabod. Ni fydd y cynllun hwn ond yn talu am gostau penodol a ysgwyddir hyd at 31 Mawrth 2022. Nid oes unrhyw arwydd y bydd Llywodraeth y DU yn ymestyn y cynllun hwn, nac yn darparu unrhyw gymorth ariannol arall i bob corff rheoleiddio i dalu am gostau disgwylidiedig gweithredu'r Bil.

## **Casgliad**

24. Fel y nodwyd uchod, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 1, 14 a 15 o'r Bil Cymwysterau Proffesiynol. Er fy mod yn croesawu ymgysylltiad Llywodraeth y DU hyd yma o ran yr angen i wneud newidiadau i'r Bil fel y mae, credaf fod angen gwelliannau pellach i fynd i'r afael â'm pryderon mewn perthynas â'r pwerau cydredol yn y Bil.
25. Ni allaf argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i gynnwys y darpariaethau hyn yn y Bil ar sail y gwelliannau a gyflwynwyd hyd yma. Byddwn yn parhau i fonitro datblygiad y Bil ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Senedd yn ôl yr angen.

**Jeremy Miles AS**  
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**  
**6 Rhagfyr 2021**